



Ysgol Pentreuchaf

85. Polisi Eiddo Personol Disgyblion

Nod

Diogelu eiddo personol disgyblion yr ysgol a chael plant i barchu eiddo eraill. Pwysleisio fod gan rieni gyfrifoldeb (ynghŷd â'r athrawon) ac y bydd pob eiddo a ddaw i'r ysgol ar risg y perchennog ei hun.

Canllawiau

1. Yn unol â'r canllawiau yn Newyddlen yr Ysgol, (a roddir i bob teulu yn dymhorol), anogir y plant i beidio dod ag eiddo personol megis teganau a gemwaith i'r ysgol gan na all staff yr ysgol fod yn gyfrifol os cânt eu colli neu eu difrodi. Er hyn, rydym yn cydnabod fod dod â thegan cyfarwydd yn bwysig iawn i blant ifanc, ac i rai hŷn ar adegau penodol yn eu bywydau, a cheisiwn fod yn hyblyg. Darperir blwch pwrpasol i'r plant bach gadw eu teganau personol.
2. Gofynnir i rieni sicrhau bod dillad y plant, eu bocsys bwyd, bagiau, dillad addysg gorfforol, cotiau a.y.y.b. wedi eu labelu'n glir. Onibai fod hyn wedi ei wneud, mae'n amhosibl adnabod dillad gwahanol blant.
3. Pan ddaw plant ag eiddo personol (fydd yn ymwneud â gwaith y dosbarth) i'r ysgol, gofynnir iddynt sicrhau bod eu henwau yn glir arnynt, ac wedi eu rhoi yn ddiogel mewn bag neu amlen. Dylai'r plentyn hysbysu'r athrawes ei fod /bod wedi dod â'r gwrthrych i'r ysgol.
4. Anogir y plant i barchu eiddo eraill a pheidio â chyffwrdd ynddo heb ganiatâd yr athrawes/plentyn.
5. Os difrodir eiddo yn fwriadol neu drwy flerwch gan blentyn, yna disgwylir iddo/iddi ddigolledu'r perchennog a gwerthfawrogir cefnogaeth y rhieni yn hyn o beth.
6. Ni fyddwn yn disgwyl i blant ddod ag eiddo gwerthfawr i'r ysgol. Dylai rhieni hefyd ystyried oedran ac aeddfedrwydd y plentyn cyn aniatâu iddo/iddi ddod ag eiddo i'r ysgol.
7. Cymerir pob gofal rhesymol i warchod a diogelu eiddo disgyblion ac eraill. Anogir y plant i beidio ag ymyrryd ag eiddo plant a phobl fydd ar dir yr ysgol.
8. Pan fydd plant yn gwneud gwaith ymarferol gyda phaent, glud a.y.y.b. gwneir pob ymdrech i warchod eu dillad, trwy ddarparu ffedogau ond rhaid cofio mai plant ydynt a'i bod yn bwysig iddynt ganolbwyntio ar fwynhau'r gweithgareddau, nid meddwl am eu dillad!

Casgliad

Cymerir pob gofal rhesymol o eiddo plant a phawb o fewn yr ysgol. Er hyn, rhaid derbyn y gall eiddo gael ei falu neu ei golli weithiau.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____